**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **12 GORFFENNAF 2011** |
| TEITL | **ADRODDIAD BLYNYDDOL PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL 2010/11** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **MYNEGI BARN ARCHWILIO MEWNOL AR YR AMGYLCHEDD REOLAETH GYFFREDINOL O FEWN YR AWDURDOD** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Fel "Pennaeth Archwilio Mewnol" Cyngor Gwynedd yn unol â gofynion Côd Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig, mae gofyn arnaf i ddarparu sicrwydd i'r awdurdod ar y system gyflawn o reolaeth fewnol yn yr awdurdod. Wrth roi fy marn, dylid nodi na all sicrwydd fyth fod yn llwyr. Y mwyaf y gall gwasanaeth archwilio mewnol ei ddarparu i'r Cyngor ydi sicrwydd rhesymol nad oes gwendidau mawr yn y system gyfan o reolaeth fewnol.

1.2 Wrth asesu'r lefel sicrwydd i'w roi, rwyf wedi ystyried pob archwiliad sy'n berthnasol i 2010/11 ac unrhyw weithrediad dilynol parthed archwiliadau o'r cyfnod yma a chyfnodau blaenorol.

## 2. SICRWYDD CYFFREDINOL

**2.1 Yn fy marn i, mae gan Cyngor Gwynedd fframwaith gadarn o reolaeth fewnol er mwyn cynnig sicrwydd rhesymol parthed cyflawniad effeithiol ac effeithlon o amcanion y Cyngor, gan fod y camau a gymerwyd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol i sefydlu a cryfhau rheolaethau mewnol ac i sicrhau fod argymhellion i gywiro gwendidau a adnabuwyd gan Archwilio Mewnol wedi bod yn foddhaol.**

### 2.2 Ystyriaethau

Er mwyn rhoi fy marn ar ddigonolrwydd y systemau rheolaeth fewnol, rwyf wedi ystyried y canlynol:

- Yn gyffredinol, canfuwyd rheolaeth fewnol dda o fewn pob un o wasanaethau'r Cyngor yn unigol.
- Ble canfuwyd gwendidau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol, cafodd y materion hyn eu cywiro gan swyddogion y Cyngor, neu fe dderbyniasant sylw gan y Pwyllgor Archwilio.
- Nid yw Archwilio Mewnol wedi dibynnu ar unrhyw waith gan gyrff archwilio allanol er mwyn dod i'r farn yn yr adroddiad yma.

# 3. GWAITH ARCHWILIO

## Cynllun Archwilio

3.1 Roedd 106 darn o waith wedi eu cynnwys yng nghynllun archwilio addasedig terfynol 2010/11. Cafodd 91 o'r aseiniadau hyn eu cwblhau, sy'n cynrychioli **85.85**% o'r cynllun.

3.2 Gwnaethpwyd penderfyniad yn gynnar yn ystod 2010/11 fod rhaid cymryd camau unwaith ac byth i dod i ben yr ymarfer lle byddai gwaith archwilio un flwyddyn ddim yn cael ei gwblhau tan rai misoedd i mewn i'r flwyddyn olynol. Yn 2008/09 a cyn hynny, defnyddiwyd "% o'r cynllun archwilio sydd wedi ei gwblhau" fel dangosydd perfformiad. Fodd bynnag, roedd y diffiniad o "wedi eu cwblhau" yn amwys a bu i'r mater dderbyn sylw gan Swyddfa Archwilio Cymru. Yn 2009/10 defnyddiwyd "Canran y Cynllun Archwilio a fydd yn cyfrannu at y farn yn yr Adroddiad Blynyddol", ond gellid dadlau fod hynny braidd yn astrus hefyd. Yn unol ag argymhelliad SAC, adolygwyd y mater eto yn gynnar 2010/11. Fel canlyniad, er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, newidiwyd y dangosydd yma ar gyfer 2010/11 i "**Canran archwiliadau yn y Cynllun Archwilio sydd unai wedi eu cau neu sydd ag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau**".

3.3 Roedd y targed ar gyfer 2010/11 yn 85%, gan gynyddu i 95% yn 2011/12. Mae'r targedau am 2010/11 a 2011/12 yn adlewyrchu'r dyhead i dorri'r cylch dieflig o fod yn cwblhau gwaith archwilio yn y flwyddyn ddilynol, sydd yn bwyta i mewn i adnoddau archwilio'r flwyddyn honno. Perfformiad yn erbyn y targed yma a adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio ar 27 Medi 2010, 13 Ionawr 2011 a 10 Mawrth 2011 yn yr adroddiadau "Cynllun Archwilio Mewnol 2010/11".

3.4 Yr archwiliadau na gafodd eu cyflawni cyn 31 Mawrth 2011 oedd:

- Defnydd Ynni *(Corfforaethol)*
- Rheolaeth Cynllun Oriau Ystwyth a "TOIL" *(Corfforaethol)*
- Trefniadau Atal Twyll - "Llyfr Coch" CIPFA *(Corfforaethol)*
- Arbedion Effeithlonrwydd *(Corfforaethol)*
- Iechyd a diogelwch - tripiau ysgol *(Addysg)*
- System Personél / Cyflogau Newydd *(Corfforaethol)*
- Llwyddo yng Ngwynedd *(Economi a Chymuned)*
- Prosiectau Cynllun Datblygu Gwledig Cymru *(Economi a Chymuned)*
- Digwyddiadau *(Economi a Chymuned)*
- Deddf Diogelu Data - Teledu Cylch Cyfyng *(Corfforaethol)*
- Rheolaeth Asbestos *(Gofal Cwsmer)*
- Cyllidebu Datganoledig *(Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- Gweinyddiaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol *(Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- Anabledd Dysgu - Rheoli Prosiect *(Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- Caffael Cynaliadwy (Cynllun 3-blynedd) *(Strategol a Gwella)*

3.5 Mae rhestr o'r archwiliadau o gynllun 2010/11 sydd wedi cyfrannu at y farn a fynegir yn mharagraff 2.1 wedi eu rhestru yn Atodiad 1.

3.6 Ble'n berthnasol, caiff adroddiadau archwiliad mewnol eu categoreiddio er mwyn rhoi barn archwilio gyffredinol ar amgylchedd reolaeth y system neu sefydliad benodol dan sylw.

Barn "A" Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.

Barn "B" Mae rheolaethau mewn lle, a gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol gan fod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau.

Barn "C" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth.

Barn "CH" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan nad oes rheolaethau derbyniol yn bodoli, a darganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth hyn.

3.7 Cafodd pob argymhelliad a gyflwynwyd o fewn yr adroddiadau eu gwneud er mwyn cryfhau'r rheolaethau mewnol sydd yn lliniaru risgiau gweithredol, ac i sefydlu ymarfer da.

3.8 O'r 91 aseiniad yng nghynllun archwilio 2010/11 a gafodd eu cwblhau, dyfarnwyd y categorïau barn canlynol:

| **Categori Barn** | **Nifer archwiliadau** |
|---|---:|
| A | 13 |
| B | 49 |
| C | 11 |
| CH | 1 |
| Dim Categori | 17 |
| **Cyfanswm** | **91** |

3.9 O'r adroddiadau perthnasol i gynllun archwilio 2010/11 a dderbyniodd gategori Barn 'A' i 'CH', derbyniodd 84% ohonynt farn 'A' neu 'B', sydd ychydig yn is na'r ffigwr cyfatebol o 87% yn 2009/10.

3.10 Caiff crynodeb gweithredol adroddiadau llawn eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar ôl i'r adroddiad terfynol gael ei gytuno gyda'r cleient a'i ryddhau. Lle caiff memorandwm ei anfon yn hytrach nag adroddiad llawn, a lle nad oes categori barn, mae'r Pwyllgor Archwilio yn derbyn rhestr o'r archwiliadau perthnasol. Yr unig eithriad i hyn gyda gwaith o'r cynllun yw gwaith sy'n cael ei gynnal yn barhaus trwy'r flwyddyn, megis adolygiadau o gyfrifon terfynol contractau.

3.11 Mae'r tabl isod yn dangos pa gyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a dderbyniodd fanylion yr archwiliadau o gynllun 2010/11. Mae dyddiadau cyfarfodydd perthnasol y Pwyllgor Archwilio hefyd wedi eu rhestru yn Atodiad 1.

| **Dyddiad Rhyddhau'r Adroddiad / Memorandwm Terfynol** | **Dyddiad Adrodd i'r Pwyllgor Archwilio** |
|---|---|
| 1 Ebrill 2010 – 31 Mai 2010 | 8 Gorffennaf 2010 |
| 1 Mehefin 2010 – 31 Awst 2010 | 27 Medi 2010 |
| 1 Medi 2010 – 30 Tachwedd 2010 | 13 Ionawr 2011 |
| 1 Rhagfyr 2010 – 31 Ionawr 2011 | 10 Mawrth 2011 |
| 1 Chwefror 2011 – 31 Mawrth 2011 | 12 Gorffennaf 2011 |

**Addasiadau i'r Cynllun**

3.12 Adroddwyd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio yn ystod y flwyddyn ar addasiadau i'r cynllun archwilio.

**Gwaith Dilyniant**

3.13 Rhyddhawyd memorandwm terfynol ar gyfer 18 o archwiliadau dilyniant yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2010 i 31 Mawrth 2011. Un o'r archwiliadau yma yn unig a dderbyniodd farn "Anfoddhaol" – derbyniodd y gweddill (ar wahân i ddau heb gategori barn am fod trefniadau wedi newid) farn "Derbyniol" neu "Rhagorol". Mae hyn yn awgrymu fod trefniadau cadarn o fewn yr awdurdod i weithredu argymhellion archwilio er mwyn cryfhau rheolaethau mewnol a rheoli risg.

## 4. ADNODDAU ARCHWILIO MEWNOL

### Staffio a chymwysterau

4.1 Mae gan 3 o swyddogion Archwilio Mewnol gymhwyster CIPFA llawn, sef yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg a dau arweinydd tîm, ac mae gan yr Uwch Archwiliwr (TG) gymhwyster archwilio cyfrifiaduron ISACA.

### Y defnydd a wneir o adnoddau staff

4.2 Mae Atodiad 2 yn cynnwys dadansoddiad o ddefnydd amser swyddogion Archwilio Mewnol yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2010 a 31 Mawrth 2011. Tynnir sylw'r Pwyllgor i'r canlynol:

- O safbwynt hyfforddiant proffesiynol, roedd Arweinydd Tîm a dau Archwiliwr yn astudio am gymhwyster ACCA, yn ogystal ag Archwiliwr oedd yn astudio am gymhwyster CIPFA.

- Bu lleihad sylweddol yn y dyddiau a gollwyd oherwydd salwch, o 164 yn 2009/10 i 24 yn 2010/11. Roedd hyn yn bennaf oherwydd cyfnodau o salwch hirdymor dau swyddog yn ystod y flwyddyn flaenorol.

- Gwelwyd cynnydd pellach yng nghyfanswm nifer y dyddiau ar dreuliwyd ar waith cynhyrchiol i Cyngor Gwynedd, o **1,770** diwrnod rhwng 1 Ebrill 2009 a 31 Mawrth 20010 i **1,897** diwrnod am yr un cyfnod yn 2010/11.

- Ymhellach, bu lleihad yn nifer y ddyddiau y bu'n rhaid eu defnyddio yn cwblhau gwaith y flwyddyn flaenorol, o 360 diwrnod yn 2009/10 i 131 yn 2010/11. Oherwydd mesurau gwelliant penodol sydd wedi eu rhoi yn eu lle, disgwylir i'r ffigwr yma lleihau ymhellach yn 2011/12.

## 5. PERFFORMIAD ARCHWILIO

5.1 Roedd canlyniadau dangosyddion perfformiad y gwasanaeth archwilio mewnol yn ystod 2010/11 fel a ganlyn:

| **Disgrifiad dangosydd** | **Perfformiad 2009/10** | **Targed blwyddyn 2010/11** | **Canlyniadau 2010/11** |
|---|---|---|---|
| Canran archwiliadau yn y Cynllun Archwilio sydd unai wedi eu cau neu sydd ag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau | 95%[1] | 85% | **85.85**% |
| % archwiliadau a gwblhawyd o fewn amser yn y cynllun ('tolerance' 10%) | 64% | 70% | **72**% |
| % o waith dilyniant sydd yn cael ei gwblhau o fewn amserlen a bennwyd ar adeg yr archwiliad gwreiddiol | 71% | 80% | **100%** |
| Nifer y Safonau Archwilio ble ceir cydymffurfiaeth llawn yn ôl adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o'r gwasanaeth | 8 | 9 | **10** |
| Dyddiau cynhyrchiol fel % o'r cyfanswm sydd ar gael (heb gynnwys gwyliau) | 69.35% | 73.5% | **73.35**% |
| Cyfran o'r adroddiadau dilyniant Archwilio Mewnol yn cyrraedd barn "Derbyniol" neu well (mesur corfforaethol) | 100% | 90% | **93.75**% |

5.2 Yr unig ddangosydd ble na gyrhaeddwyd y targed oedd *Dyddiau cynhyrchiol fel % o'r cyfanswm sydd ar gael (heb gynnwys gwyliau)*, oedd yn 0.15% yn fyr o'r targed.

[1] Teitl y dangosydd yn 2009/10 oedd *Canran y Cynllun Archwilio a fydd yn cyfrannu at y farn yn yr Adroddiad Blynyddol*

## 6. CYDYMFFURFIAETH Â'R CÔD YMARFER

6.1 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn mesur Archwilio Mewnol yn erbyn gofynion Côd Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol 2006. Adroddodd Swyddfa Archwilio Cymru yng Ngorffennaf 2010 fod gan Cyngor Gwynedd wasanaeth Archwilio Mewnol effeithiol sy'n cydymffurfio ar y cyfan â safonau y Côd Ymarfer.

6.2 Roedd adroddiad y archwiliwr allanol yn nodi fod Archwilio Mewnol wedi cyrraedd y safonau canlynol:

- Cwmpas yr Archwiliad Mewnol
- Moeseg i Archwilwyr Mewnol
- Pwyllgor Archwilio
- Cydberthnasau
- Staffio, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus
- Strategaeth Archwilio a Chynllunio
- Cyflawni gwaith archwilio
- Gofal Proffesiynol Priodol
- Cyflwyno Adroddiadau
- Perfformiad, ansawdd ac effeithiolrwydd

Adroddwyd mai yn rhannol yr oedd Archwilio Mewnol yn cyrraedd y safon Annibyniaeth, oherwydd cyfrifoldebau eraill yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn ychwanegol i Archwilio Mewnol. Mae hyn yn fater sydd wedi ei adrodd i a'i nodi gan y Pwyllgor Archwilio ers sawl blwyddyn.

6.3 Roedd yr adroddiad yn cynnwys dau argymhelliad. Mae'r tabl isod yn dangos yr ymateb i'r argymhellion hyn:

| **Argymhelliad** | | **Sylwadau / Cynnydd** |
|---|---|---|
| A1 | Atgoffa Penaethiaid Gwasanaethau am yr angen i ymateb i Archwiliad Mewnol yn unol â'r amserlenni y cytunwyd arnynt er mwyn sicrhau y gellir cyflwyno adroddiadau terfynol ar sail amserol. | Ni welwyd oedi yn ystod 2010/11, gyda penaethiaid ac uwch reolwyr yn cael eu hatgoffa, ble'n briodol, o'r targedau sydd gan Archwilio Mewnol i'w cyrraedd, gyda cais cwrtais am gydweithrediad. |
| A2 | Datblygu ymhellach y set o dargedau perfformiad er mwyn darparu ystod cynhwysfawr o ddangosyddion i'w hystyried gan y rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio. | Adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio yng Ngorffennaf 2010 fod bwriad edrych eto ar y dangosydd ar gyfer "Canran y Cynllun Archwilio sydd wedi ei gwblhau". Gwnaethpwyd hynny, fel yr esbonnir ym mharagraff 3.2 o'r adroddiad yma. |

## 7. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2011/12

7.1 Cyflwynwyd cynllun archwilio mewnol drafft ar gyfer 2010/11 i'r Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar 10 Mawrth 2011. Mae'r cynllun terfynol wedi ei gynnwys yn Atodiad 3.

## 8. ARGYMHELLIAD

8.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad yma fel adroddiad blynyddol ffurfiol yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn unol â gofynion y Côd Ymarfer ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig.

# Cynllun Archwilio Mewnol 2010/11

| Enw'r Archwiliad | Categori Barn | Dyddiad Cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio |
|---|---|---|
| **CORFFORAETHOL** | | |
| Defnydd Cyfieithwyr Allanol | **Dim Categori** | 12 Gorffennaf 2011 |
| Rheolaeth Ffonau Symudol | **CH** | 12 Gorffennaf 2011 |
| Trefniadau Adolygu Perfformiad Staff - Gwerthuso | **B** | 10 Mawrth 2011 |
| Trefniadau Datgelu - Ymwybyddiaeth o'r Polisi Canu'r Gloch | **B** | 13 Ionawr 2011 |
| Cyfrannu at Ddarparu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol | **Dim Categori** | 27 Medi 2010 |
| Gwaredu Gwastraff Cyfrinachol | **B** | 13 Ionawr 2011 |
| Cyn-stoc Tai - Arian Dargadw | **Dim Categori** | |
| Amseriad cychwyn gwaith ac arwyddo-selio contractau | **Dim Categori** | 10 Mawrth 2011 |
| PQQ a Thendr Ysgol yr Hendre | **Dim Categori** | |
| System e-Dendro | **B** | 13 Ionawr 2011 |
| Grantiau (Grwp Amgylchedd) | **Dim Categori** | 12 Gorffennaf 2011 |
| Grantiau: Corfforaethol | **Dim Categori** | 12 Gorffennaf 2011 |
| Prydlondeb Talu Anfonebau | **B** | 27 Medi 2010 |
| NFI (Y Fenter Twyll Genedlaethol) | **Dim Categori** | |
| Cytundebau Escrow | **C** | 27 Medi 2010 |
| Gwirio Dangosyddion Perfformiad | **C** | 12 Gorffennaf 2011 |
| **ADDYSG** | | |
| **Adnoddau** | | |
| Grantiau Addysg - Estyniad Rhaglen Datblygu Meddwl ac Asesu ar Gyfer Dysgu Llywodraeth Cynulliad Cymru | **A** | 27 Medi 2010 |
| Grant y Fenter Brecwastau Am Ddim mewn Ysgolion Cynradd | **B** | 27 Medi 2010 |
| Grant Ysgolion Bro Llywodraeth Cynulliad Cymru | **B** | 27 Medi 2010 |
| Grant Datgloi Potensial Ysgolion Anghenion Arbennig Gwynedd | **A** | 12 Gorffennaf 2011 |
| Grant Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Gyfer Arloesi Mewn Ysgolion Bach | **B** | 27 Medi 2010 |
| Grant Addysg ôl-16 | **Dim Categori** | 10 Mawrth 2011 |
| Unedau Iaith | **Dim Categori** | 12 Gorffennaf 2011 |
| **Ysgolion** | | |
| Ysgol Dyffryn Ogwen | **A** | 12 Gorffennaf 2011 |
| Ysgol Botwnnog | **B** | 13 Ionawr 2011 |
| Ysgol Dyffryn Nantlle | **B** | 13 Ionawr 2011 |
| Ysgol Eifionydd | **A** | 27 Medi 2010 |
| Ysgol Uwchradd Tywyn | **B** | 12 Gorffennaf 2011 |
| Ysgol y Berwyn | **B** | 12 Gorffennaf 2011 |
| Ysgol Ardudwy | **B** | 13 Ionawr 2011 |
| Ysgol Friars | **B** | 10 Mawrth 2011 |
| Ysgol Tryfan | **B** | 13 Ionawr 2011 |
| Ysgol Glan Y Môr | **B** | 13 Ionawr 2011 |
| Ysgol Coed Menai | **B** | 10 Mawrth 2011 |
| **ADNODDAU DYNOL** | | |
| **Cefnogol** | | |
| Trefn Archebu Gwestai | **B** | 27 Medi 2010 |

| Enw'r Archwiliad | Categori Barn | Dyddiad Cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio |
|---|---|---|
| **Iechyd a Diogelwch** | | |
| Iechyd a Diogelwch - y "fflyd lwyd" | **B** | 10 Mawrth 2011 |
| **Uned Cefnogol** | | |
| Gwirio Rhestrau Gweithwyr | **C** | 10 Mawrth 2011 |
| **CYLLID** | | |
| **Cyfrifeg** | | |
| Tendr Bancio | **A** | 27 Medi 2010 |
| Cyfundrefn a Phrosesau Cyfalaf | **B** | 13 Ionawr 2011 |
| Paratoadau ar gyfer IFRS - Trefniadau Prosiect | **A** | 27 Medi 2010 |
| Paratoadau ar gyfer IFRS - Buddiannau Gweithwyr | **A** | 10 Mawrth 2011 |
| Paratoadau ar gyfer IFRS - Prydlesi | **B** | 13 Ionawr 2011 |
| Paratoadau ar gyfer IFRS - Asedau Sefydlog | **A** | 10 Mawrth 2011 |
| **Pensiynau a Chyflogau** | | |
| Gweithredu Newidiadau Cyflog | **B** | 13 Ionawr 2011 |
| Pensiynau - Cyfraniadau gan gyflogwyr | **Dim Categori** | 12 Gorffennaf 2011 |
| **Refeniw** | | |
| Trefniadau derbyn arian | **B** | 12 Gorffennaf 2011 |
| Gwaredu cyfarpar y cyn-swyddfeydd arian | **A** | 8 Gorffennaf 2010 |
| System Budd-daliadau - Rheoli Gwybodaeth a Chyfrifiadau | **B** | 12 Gorffennaf 2011 |
| Taliadau budd-dal yn dilyn trosglwyddiad y stoc dai | **B** | 13 Ionawr 2011 |
| **DARPARU A HAMDDEN** | | |
| **Cefnogaeth Busnes a Gweinyddiaeth** | | |
| System Rheolaeth Gofal Cartref | **A** | 13 Ionawr 2011 |
| **Gofal Cymunedol** | | |
| Trefniadau Rheoli Prosiect Galluogi | **A** | 12 Gorffennaf 2011 |
| **Hamdden** | | |
| Canolfan Hamdden Plas Silyn | **C** | 13 Ionawr 2011 |
| Canolfan Hamdden Glaslyn | **B** | 13 Ionawr 2011 |
| Canolfan Hamdden y Pafiliwn | **B** | 10 Mawrth 2011 |
| Neuadd Chwaraeon a Phwll Nofio Bro Ffestiniog | **C** | 12 Gorffennaf 2011 |
| Canolfan Hamdden Glan Wnion | **C** | 13 Ionawr 2011 |
| **Preswyl a Dydd** | | |
| Gweinyddu Meddyginiaeth yng nghartrefi'r Cyngor | **B** | 10 Mawrth 2011 |
| Cynllun Lleoli Oedolion | **B** | 12 Gorffennaf 2011 |
| **DEMOCRATIAETH A CHYFREITHIOL** | | |
| **Cofrestru** | | |
| Gweinyddu'r Gofrestr Etholiadol | **B** | 10 Mawrth 2011 |
| Chwiliadau a Phridiannau Tir | **Dim Categori** | 13 Ionawr 2011 |
| **Democratiaeth** | | |
| Yr Argraffdy | **Dim Categori** | 13 Ionawr 2011 |
| **ECONOMI A CHYMUNED** | | |
| **Adfywio Cymunedol** | | |
| Cist Gwynedd | **B** | 12 Gorffennaf 2011 |
| **Hyfforddiant Gwynedd** | | |
| Trefniadau Trosglwyddo Hyfforddiant Gwynedd | **B** | 13 Ionawr 2011 |

| Enw'r Archwiliad | Categori Barn | Dyddiad Cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio |
|---|---|---|
| **Morwrol a Pharciau Gwledig** | | |
| Parc Gwledig Glynllifon | **B** | 10 Mawrth 2011 |
| Parc Gwledig Padarn | **B** | 10 Mawrth 2011 |
| **Strategaeth a Datblygu** | | |
| Grantiau Clybiau Ieuenctid - Grant Cyfalaf | **B** | 13 Ionawr 2011 |
| Grantiau Clybiau Ieuenctid - Grant Refeniw | **B** | 13 Ionawr 2011 |
| **GOFAL CWSMER** | | |
| **Cyfathrebu** | | |
| Diweddaru'r Wefan a Safle'r Mewnrwyd | **C** | 10 Mawrth 2011 |
| **Cyswllt Cwsmer** | | |
| Canolfan Gyswllt Galw Gwynedd | **B** | 12 Gorffennaf 2011 |
| **Gwybodaeth** | | |
| Uned Rheoli Cofnodion | **C** | 13 Ionawr 2011 |
| **Technoleg Gwybodaeth** | | |
| Rheolaeth Dyfeisiadau | **B** | 13 Ionawr 2011 |
| Mynediad Defnyddwyr Trydydd Parti i'r Rhwydwaith | **B** | 12 Gorffennaf 2011 |
| Diogelwch Dyfeisiadau Symudol a Pherimedr Rhwydwaith | **C** | 12 Gorffennaf 2011 |
| Contractau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu - Cytundeb PSBA | **B** | 10 Mawrth 2011 |
| **GWASANAETHAU CYMDEITHASOL** | | |
| **Ar draws yr adran** | | |
| Trefniadau Rheoli Ansawdd | **B** | 12 Gorffennaf 2011 |
| Trefniadau Argyfwng Gwasanaethau Cymdeithasol | **B** | 10 Mawrth 2011 |
| Rheoli Data | **B** | 10 Mawrth 2011 |
| Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol | **A** | 12 Gorffennaf 2011 |
| Trefniadau Apwyntî a Dirprwyaeth | **B** | 27 Medi 2010 |
| **PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL** | | |
| **Ar draws yr adran** | | |
| Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru - Risgiau Newid Hinsawdd | **A** | 13 Ionawr 2011 |
| **Gwaith Bwrdeistrefol** | | |
| Partneriaeth Penllyn | **Dim Categori** | 12 Gorffennaf 2011 |
| **Gwaith Priffyrdd** | | |
| Cytundebau Cynnal Ffyrdd | **C** | 10 Mawrth 2011 |
| Cyflwr Ffyrdd - Archwiliadau a chwynion y cyhoedd | **B** | 13 Ionawr 2011 |
| **Rheoli Gwastraff a Strydoedd** | | |
| Costau Toiledau Cyhoeddus | **B** | 13 Ionawr 2011 |
| Strategaeth Gwastraff | **Dim Categori** | 10 Mawrth 2011 |
| **RHEOLEIDDIO (CYNLLUNIO, TRAFNIDIAETH A GWARCHOD Y CYHOEDD)** | | |
| **Amgylchedd** | | |
| Llwybrau Cyhoeddus | **B** | 12 Gorffennaf 2011 |
| **Gwarchod y Cyhoedd** | | |
| Trwyddedau Tacsis | **B** | 27 Medi 2010 |
| **Trafnidiaeth a Gofal Stryd** | | |
| Uned Cludiant Cyhoeddus | **C** | 12 Gorffennaf 2011 |
| **STRATEGOL A GWELLA** | | |
| **Caffael ac Effeithlonrwydd** | | |

| Enw'r Archwiliad | Categori Barn | Dyddiad Cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio |
|---|---|---|
| Prosiect e-Gaffael | **Dim Categori** | 12 Gorffennaf 2011 |
| **YMGYNGHORIAETH GWYNEDD** | | |
| **Ar draws yr adran** | | |
| Cyfrifon Terfynol Cynllun A499 | **Dim Categori** | 13 Ionawr 2011 |
| Dethol Contractwyr | **B** | 12 Gorffennaf 2011 |

**Crynodeb o nifer yr adroddiadau ym mhob categori barn, Cynllun 2009/10:**

| | Nifer archwiliadau |
|---|---|
| A | **13** |
| B | **49** |
| C | **11** |
| CH | **1** |
| Dim Categori | **17** |
| **Cyfanswm** | **91** |

## Dadansoddiad Amser Archwilio Mewnol 1 Ebrill - 31 Mawrth:

| 2009/10 | | 2010/11 |
|---|---|---|
| **3,039** | **Cyfanswm Dyddiau** | **3,058** |
| 437 | Llai Gwyliau (Statudol ac Anstatudol) | 444 |
| **2,602** | **Cyfanswm y Dyddiau Ar Gael** | **2,614** |
| | Llai: | |
| 48 | Gwyliau Arbennig | 35 |
| 164 | Salwch | 24 |
| 39 | Hyfforddiant Proffesiynol | 49 |
| 61 | Hyfforddiant Swydd | 84 |
| **2,290** | **Dyddiau ar gael** | **2,422** |
| | Llai Amser Di-gynnyrch: | |
| 12 | Adolygu Perfformiad (Gwerthuso) | 14 |
| 11 | Apwyntiadau Meddygol | 8 |
| 34 | Cofnodi a Rheoli Amser | 35 |
| 102 | Cyfarfodydd a Phwyllgorau | 120 |
| 3 | Cyfarfodydd-Gwaith ar y cyd a SAC | 2 |
| 8 | Cyflwyno Hyfforddiant | 7 |
| 2 | Cynnal Cyfweliadau | 1 |
| 62 | Gwaith Cefndirol | 59 |
| 46 | Gweinyddiaeth ayb. | 40 |
| 16 | Pwyllgor Archwilio | 17 |
| 127 | Rheolaeth Archwilio Mewnol | 130 |
| 6 | Rheoli Absenoldebau | 5 |
| 5 | Trafferthion TG | 6 |
| 1 | Ymarferiadau Tân | 0 |
| 51 | Llai: gwaith rheolaethol arall (Uwch Reolwr) | 62 |
| **1,804** | **Cyfanswm Dyddiau Cynhyrchiol** | **1,916** |
| 34 | Gwaith APCE | 19 |
| **1,770** | **Cyfanswm dyddiau cynhychiol, Cyngor Gwynedd** | **1,897** |

## Dadansoddiad o ddefnydd dyddiau cynhyrchiol Cyngor Gwynedd:

| 2009/10 | Math o waith | 2010/11 |
|---|---|---|
| 1,136 | Gwaith Cynllun blwyddyn gyfredol | 1,358 |
| 360 | Cwblhau gwaith blwyddyn flaenorol | 131 |
| 1 | Cychwyn gwaith blwyddyn ddilynol | 121 |
| 57 | Cynghori | 78 |
| 76 | Gwaith dilyniant | 80 |
| 140 | Gwaith Ymatebol/Archwiliadau Arbennig | 129 |
| **1,770** | | **1,897** |

# Cynllun Archwilio Mewnol 2011/12

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Dyddiau |
|---|---|---|
| **CORFFORAETHOL** | | |
| | Trefniadau Craffu | **15.00** |
| | Rheolaeth Cynllun Oriau Ystwyth a "TOIL" | **25.00** |
| | Gweinyddu Costau Teithio | **20.00** |
| | Asesiadau Risg Tân - Swyddogaethau Rheolwyr Safle | **10.00** |
| | Cyfrannu at baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol | **10.00** |
| | Trefniadau Atal Twyll - "Llyfr Coch" CIPFA | **30.00** |
| | Cynnal Asesiadau Ariannol ar Gwmnïoedd | **10.00** |
| | Cyn-stoc Tai - Arian Dargadw | **10.00** |
| | Rheoli Contractau - Ysgol yr Hendre | **10.00** |
| | Rheoli Contractau - Adfywio Canol Blaenau Ffestiniog | **10.00** |
| | Rheoli Contractau - Adfywio Ffisegol yng ngogledd Cymru | **10.00** |
| | Rheoli Contractau - Addasiadau i Adeiladau Gweinyddol y Cyngor | **5.00** |
| | Grantiau (Grwp Amgylchedd) | **30.00** |
| | Trefniadau Cofnodi a Rheoli Salwch | **20.00** |
| | Deddf Diogelu Data - Teledu Cylch Cyfyng | **10.00** |
| | Prydlondeb Taliadau | **15.00** |
| | NFI (Y Fenter Twyll Genedlaethol) | **30.00** |
| | Arbedion Effeithlonrwydd | **30.00** |
| **ADDYSG** | | |
| **Adnoddau** | | |
| | Grantiau Addysg - Estyniad Rhaglen Datblygu Meddwl ac Asesu ar Gyfer Dysgu Llywodraeth Cynulliad Cymru | **6.00** |
| | Grant y Fenter Brecwastau Am Ddim mewn Ysgolion Cynradd | **7.00** |
| | Grant Ysgolion Ffocws Gymunedol Llywodraeth Cynulliad Cymru | **8.00** |
| | Grant Rhwydwaith 16-19 | **6.00** |
| | Grant Datblygu Ymgynghoriaeth | **6.00** |
| | Grant Addysg ôl-16 | **1.00** |
| | Cwmni CYNNAL - Archwiliad ar y cyd â CSYM | **10.00** |
| **Ar draws yr adran** | | |
| | Rheoli Prosiect Cynllun Trefniadaeth Ysgolion | **15.00** |
| **Consortiwm Addysg** | | |
| | Consortiwm Addysg Gogledd-Orllewin Cymru | **10.00** |
| **Ysgolion** | | |
| | Allanoli Arlwyo Ysgolion - Atebolrwydd | **5.00** |
| | Ysgolion Cynradd - Rheolaeth Gyllidebol | **20.00** |
| | Ysgolion Cynradd - Llywodraethu | **20.00** |
| | Ysgolion Cynradd - Trefniadau Lleihau Baich Gwaith Athrawon | **20.00** |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Dyddiau |
|---|---|---|
| **ADNODDAU DYNOL** | | |
| **Iechyd a Diogelwch** | | |
| | Iechyd a diogelwch - tripiau ysgol | **22.00** |
| **CYLLID** | | |
| **Archwilio a Risg** | | |
| | Uned Ymchwiliadau Budd-dal | **10.00** |
| **Ariannol** | | |
| | System Taliadau - Ardystio a Cywirdeb Codio | **20.00** |
| | System Taliadau - Newid Data Sefydlog | **20.00** |
| | System Taliadau - Trefniadau Rhannu Dyletswyddau | **10.00** |
| | Taliadau - Statws Cyflogaeth | **15.00** |
| **Buddsoddi a Rheolaeth Trysorlys** | | |
| | System Fancio Electronig | **15.00** |
| **Cyfrifeg** | | |
| | Prif System Gyfrifo | **30.00** |
| **Pensiynau a Chyflogau** | | |
| | System Gyflogau - Cyflogau Misol Gweithwyr Llaw | **30.00** |
| | System Personel-Cyflogau Newydd | **5.00** |
| | Gordaliadau Pensiwn | **6.00** |
| | Pensiynau - Adroddiad Blynyddol | **15.00** |
| **Refeniw** | | |
| | Budd-daliadau - Cinio Ysgol am Ddim | **15.00** |
| | Budd-daliadau - Lwfans Gwisg Ysgol | **8.00** |
| | Treth Cyngor - Adennill a Gorfodaeth | **20.00** |
| | Treth Cyngor - Casgliadau ac Ad-daliadau | **15.00** |
| | Treth Di-Annedd - Adennill a Gorfodaeth | **25.00** |
| **DARPARU A HAMDDEN** | | |
| **Cefnogaeth Busnes a Gweinyddiaeth** | | |
| | Defnydd Cyfrifiaduron Llaw gan Ofalwyr Cartref | **15.00** |
| **Hamdden** | | |
| | Grant Cynllun Cyfeirio i Ymarfer Cenedlaethol | **5.00** |
| | Trefniadau Bancio yn y Canolfannau Hamdden | **15.00** |
| | Datblygu Chwaraeon | **15.00** |
| **Preswyl a Dydd** | | |
| | Cartrefi Preswyl y Cyngor - Trefniadau Ariannol | **16.00** |
| | Cartrefi Preswyl y Cyngor - Trefniadau Diogelwch | **10.00** |
| | Tai gyda Chefnogaeth | **25.00** |
| **DEMOCRATIAETH A CHYFREITHIOL** | | |
| **Cofrestru** | | |
| | Gwasanaeth y Crwner | **15.00** |
| **Democratiaeth** | | |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Dyddiau |
|---|---|---|
| | Treuliau Aelodau | **15.00** |
| | Trefniadau TG i aelodau | **15.00** |
| **ECONOMI A CHYMUNED** | | |
| **Adfywio Cymunedol** | | |
| | Cronfa'r Degwm | **5.00** |
| **Archifau, Amgueddfeydd a Chelfyddydau** | | |
| | Amgueddfeydd | **12.00** |
| | Neuadd Dwyfor | **8.00** |
| **Ieuenctid** | | |
| | Neuaddau Pentref - Cynllun Gweithredu | **6.00** |
| **Prosiectau Sylweddol** | | |
| | Cynllun Canolfan Rhagoriaeth Eryri | **20.00** |
| **Sgiliau a mentergarwch** | | |
| | Llwyddo yng Ngwynedd | **20.00** |
| **Strategaeth a Datblygu** | | |
| | Grantiau Clybiau Ieuenctid - Grant Cyfalaf | **4.00** |
| | Grantiau Clybiau Ieuenctid - Grant Refeniw | **4.00** |
| **Twristiaeth, Marchnata a Gofal Cwsmer** | | |
| | Digwyddiadau | **20.00** |
| **GOFAL CWSMER** | | |
| **Gwybodaeth** | | |
| | Diogelwch Gwybodaeth | **25.00** |
| **Llyfrgelloedd** | | |
| | TGCh mewn Llyfrgelloedd - rheolaethau iCam | **5.00** |
| **Technoleg Gwybodaeth** | | |
| | System CRM | **20.00** |
| | Technoleg Rhithwir | **15.00** |
| | Trefniadau Wrth Gefn a Pharhad Gwasanaeth | **14.00** |
| | Diogelwch "Outlook Web Access" | **12.00** |
| **Tir ac Eiddo'r Cyngor** | | |
| | Rheolaeth Asbestos | **10.00** |
| | Manddaliadau | **15.00** |
| **GWASANAETHAU CYMDEITHASOL** | | |
| **Ar draws yr adran** | | |
| | Partneriaeth Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol | **20.00** |
| | Strategaeth Gofalwyr | **20.00** |
| | Rheolaeth Prosiect, Gwasanaethau Cymdeithasol | **20.00** |
| | Cyllideb y Cynllun Lleoli Oedolion | **15.00** |
| | Grant Goruchwyliaeth Ddwys ac Arsylwi | **5.00** |
| | Grant Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol | **5.00** |
| | Grant Datblygu Gweithio Trawsnewidiol yng Nghymru | **5.00** |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Dyddiau |
|---|---|---|
| | Gwasanaethau Cymdeithasol - Diogelwch Ffeiliau a Gwybodaeth | **20.00** |
| | Hyfforddiant Gweithwyr Cymdeithasol | **20.00** |
| | Modiwl Ariannol RAISE | **20.00** |
| **Busnes** | | |
| | Trefn Gwyno Gwasanaethau Cymdeithasol | **10.00** |
| | Contractau Refeniw Gwasanaethau Cymdeithasol | **20.00** |
| **Plant a Theuluoedd** | | |
| | Plant - Maethu | **15.00** |
| | Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid | **20.00** |
| | System Integredig Plant | **20.00** |
| **PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL** | | |
| **Fflyd** | | |
| | Fflyd y Cyngor - tachographs a ffobiau dosbarthu Disel | **10.00** |
| **Gwaith Priffyrdd** | | |
| | Trefniadau ar alwad ac ar ddyletswydd Priffyrdd a Bwrdeistrefol | **20.00** |
| | Defnydd Is-Gontractwyr, Uned Darparu Gwaith | **15.00** |
| | Cynnal a Chadw'r Gaeaf | **15.00** |
| **Rheoli Gwastraff a Strydoedd** | | |
| | Prosiect Gorfodaeth Amgylcheddol | **20.00** |
| | Casglu data gwastraff | **10.00** |
| **RHEOLEIDDIO (CYNLLUNIO, TRAFNIDIAETH A GWARCHOD Y CYHOEDD)** | | |
| **Amgylchedd** | | |
| | Amgylcheddol - Cynnal y "Gazzetteer" | **5.00** |
| **Cynllunio** | | |
| | Rheolaeth Datblygu - Penderfyniadau Dirprwyedig | **20.00** |
| **Gwarchod y Cyhoedd** | | |
| | Rhaglenni Arolygu Hylendid Bwyd, Iechyd a Diogelwch | **20.00** |
| **Trafnidiaeth a Gofal Stryd** | | |
| | Prosiect Pont Briwet | **10.00** |
| | Cysoni Incwm Parcio a Dirwyon | **10.00** |
| **STRATEGOL A GWELLA** | | |
| **Caffael ac Effeithlonrwydd** | | |
| | Caffael Cynaladwy | **20.00** |
| **Perfformiad a Chraffu** | | |
| | Swyddogaethau yn y Broses Monitro Gwariant Cyfalaf | **20.00** |
| **YMGYNGHORIAETH GWYNEDD** | | |
| **Adeiladau ac Amgylcheddol** | | |
| | Gwasanaethau Eiddo - Penodi Contractwyr | **20.00** |
| **Peirianneg a Rheolaeth Adeiladu** | | |
| | Y Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu - Ffioedd | **15.00** |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Dyddiau |
|---|---|---|
| | | **1,541.00** |